MORGAN, EDWARD (1783 - 1869), clerigwr efengylaidd, cofiannydd a chroniclydd ffeithiau pwysig yngl n â'r diwygiad Methodistaidd yng Nghymru

Enw: Edward Morgan
Dyddiad geni: 1783
Dyddiad marw: 1869
Rhiant: David Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr efengylaidd, cofiannydd a chroniclydd ffeithiau pwysig yngl n â'r diwygiad Methodistaidd yng Nghymru
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Daniel Williams

Mab ydoedd i David Morgan, Pîl (Pyle), Sir Forgannwg, ac yno, yn T Tanglwst, y ganed ef, a'i fedyddio 7 Tachwedd 1783. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, 1802 (B.A. 1806, M.A. 1811). Derbyniodd ficeriaeth Syston, Leicestershire, yn 1814, ac at hynny cafodd ficeriaeth Ratcliffe, gerllaw, yn 1818. Hwylusir ymchwil i hanes y diwygiad Methodistaidd yng Nghymru o droi ato.

Ei arwr mawr a'i gynddelw oedd Thomas Charles o'r Bala. Ymffrostiai yn ei gyfeillgarwch â Charles, ac yn ei farw ef (1814) collodd ei gyfarwyddwr. Gohebent â'i gilydd yn gyson. Ysgrifennodd *A brief history of the life and labours of the Rev. T. Charles*, 1828, eithr benthyciodd ar y mwyaf o gofiant gan Thomas Jones, 1816 (gweler hefyd dan Davies, Morris); ac *Essays, Letters, and Interesting Papers of the late Rev. Thomas Charles*, 1836. Ei ail arwr oedd David Jones, Llan-gan. Ysgrifennodd *Ministerial Records or Brief Accounts of the Great Progress of Religion under the Ministry of ... Daniel Rowlands of Llangeitho, The Rev. W. Williams of Pant y Celyn, The Rev. D. Jones of Llangan*, 1840, Ysgrifennodd gofiant i John Elias (gweler *Y Traethodydd*, 1845, 112), *Short Memoir of the Rev. Henry Philips, late of Coychurch*, ei hen athro, a hefyd gofiant yn Gymraeg i'w fam.

Bu farw ym Mehefin 1869; dywed ei garreg fedd (ar gam) ei fod 'yn 93 oed.'

Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

Crockford's Clerical Directory, 1868

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

ewyllys ddyddiedig 27 Gorffennaf 1860

Gomer M. Roberts, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 1962, tt.13-22

Gweithiau

Edward Morgan, *Ministerial records: or Brief accounts of the great progress of religion, under the ministry of those eminent, learned, and pious ministers of God, the Rev. D. Rowlands, of Llangeitho, the Rev. W. Williams, of Pant-y-Celin, the Rev. D. Jones, of Llangan* (London 1840)

Edward Morgan, *The life and times of Howel Harris, Esq: the first itinerant preacher in Wales, whose labours were very extraordinary and successful* (Holywell 1852)

Edward Morgan, *Ministerial record: or brief account of the great progress of religion, under the ministry of D. Jones* (London 1841)

Edward Morgan, *A short memoir of the Rev. Henry Philips, late of Coychurch, Glamorganshire* (London 183-)

Edward Morgan, *A memoir of the Rev. John Elias, of Anglesea* (Liverpool 1844)

Edward Morgan, *Valuable letters, essays, and other papers of the late Reverend John Elias, of Anglesea* (Carnarvon 1847)

Edward Morgan, *Home Light, or, Brief memoirs and letters of the Rev. R. Bassett, Vicar of Colwinstone, and E. Bassett, Esq., Glamorganshire* (Carnarvon 1860)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732966

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu